

CYFARWYDDYD

Cyfreithiau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ystod Cyfnod Etholiad

Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol,
ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol

Cynnwys

Am y cyhoeddiad hwn	3
Cyflwyniad	4
1 Rhyddid mynegiant ac etholiadau rhydd a theg	5
2 Cyfarwyddyd i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr	8
3 Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau	11
4 Cyfyngiadau ar ryddid mynegiant a nodir gan y gyfraith	19
5 Sut i gwyno a rôl rheoleiddwyr	28
Cysylltiadau	31

Am y cyhoeddiad hwn

Beth yw nod y cyhoeddiad hwn?

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi cyfarwyddyd am y ffordd y mae'r fframwaith cyfreithiol ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod etholiadau lleol a chenedlaethol. Os bydd problemau yn codi, ni ddylid ei ddefnyddio yn lle cyngor cyfreithiol.

Ar gyfer pwy y mae?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer uwch reolwyr awdurdodau lleol a swyddogion canlyniadau. Mae hefyd ar gyfer pleidiau gwleidyddol, gan gynnwys ymgeiswyr a staff rhanbarthol ac etholaethol, a dylai fod o ddiddordeb i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu, yr heddlu a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Beth sydd ynddo?

- Rhyddid mynegiant ac etholiadau rhydd a theg
- Cyfarwyddyd i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr
- Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol
- Cyfyngiadau ar ryddid mynegiant a nodir gan y gyfraith
- Sut i gwyno a rôl rheoleiddwyr

Pam bod y Comisiwn wedi ei gynhyrchu?

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn hybu a gorfodi'r deddfau sy'n amddiffyn ein hawl i degwch, urddas a pharch.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y mae deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol yn gweithredu yn ystod cyfnod etholiad.

Mae'n bwysig nodi ar y dechrau bod lefel arbennig o uchel o amddiffyniad cyfreithiol i ryddid mynegiant yn ystod cyfnod etholiad. Rhaid i unrhyw ymyrraeth ar yr hawl hwn fod yn eithriadol ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau caeth iawn a nodir yn y cyfreithiau hawliau dynol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i bobl ddweud pethau sy'n tramgwyddo pobl eraill yn ystod cyfnodau etholiadau ac ar adegau eraill. Mae'n hollol briodol cael trafodaethau brwd am faterion dadleuol, ac mae hynny'n arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau etholiadau.

Ond, mae'n bwysig hefyd nodi nad yw'r hawl i ryddid mynegiant yn cyfiawnhau cymell trais neu gasineb hiliol neu grefyddol, nag unrhyw ymddygiad anghyfreithlon arall. Ni all yr hawl i gael rhyddid mynegiant fod ar draul hawliau a rhyddid pobl eraill.

1 | Rhyddid mynegiant ac etholiadau rhydd a theg

Mae rhyddid mynegiant yn hawl sylfaenol sy'n cael ei amddiffyn dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 trwy Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn). Mae hefyd yn cael ei amddiffyn dan gyfraith gwlad.¹

Mae'n berthnasol i bawb, ac mae'n golygu bod pobl yn rhydd i fod â barn a derbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth na ellir ei chyfiawnhau gan y wladwriaeth.

Yn aml mae'r llysoedd yn disgrifio rhyddid mynegiant fel un o 'seiliau hanfodol cymdeithas ddemocrataidd', gan ddiogelu nid yn unig mynegi barn nad yw'n ddadleuol ond hefyd barn sy'n 'tramgwyddo, dychryn neu anesmwytho'.²

Mae gan bob corff cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth ganolog a lleol, asiantaethau cyfiawnder troseddol, llysoedd a chyrff statudol) rwymedigaethau cadarnhaol i amddiffyn yr hawl i ryddid mynegiant a gweithredu yn unol â hynny.

Bydd yr union amgylchiadau a chyd-destun pan fydd y mynegiant yn digwydd yn berthnasol i bennu a yw wedi ei amddiffyn dan Erthygl 10. Ystyrir bod amddiffyn areithio, trafod, gohebu a sylwebu gwleidyddol ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn eithriadol o bwysig, yn arbennig yn ystod cyfnodau etholiadau. Yn unol â hynny, mae'r trothwy i gyfiawnhau amharu ar ryddid mynegiant yn y cyd-destun hwn yn cael ei osod yn uchel.

Ond nid yw rhyddid mynegiant yn hawl absoliwt; daw dyletswyddau a chyfrifoldebau ynghlwm â'i arfer. Gellir ei gyfyngu dan Erthygl 10(2) pan fydd cyfraith yn caniatáu'r cyfyngiad, pan fydd y cyfyngiad 'yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd'³ a phan fydd y cyfyngiad ar gyfer un o'r dibenion cyfreithlon canlynol:

- Er budd diogelwch cenedlaethol neu ddiogelwch y cyhoedd (er enghraifft i wahardd honiadau ffug am fomiau)
- I atal anhrefn a throseddau (er enghraifft i wahardd cymell casineb hiliol)

¹ Cyhoeddodd y Comisiwn gyfarwyddyd ar y fframwaith cyfreithiol sy'n amddiffyn rhyddid mynegiant: <http://www.equalityhumanrights.com/publication/freedom-expression-legal-framework>

² *Delfi As v Estonia* (2014) App No 64569/09.

³ ECHR Erthygl 10 para 2.

- Er diogelu iechyd neu foesau (er enghraifft deddfau yn erbyn rhai mathau o bornograffi)
- Er diogelu enw da neu hawliau pobl eraill (fel sy'n cael ei adlewyrchu yn ein cyfreithiau difenwi)
- Er atal datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd yn gyfrinachol (cyfrinachau masnach, er enghraifft)
- I gynnal awdurdod a natur ddiuedd y farnwriaeth.

Yn ychwanegol, nid yw mynegiant sy'n torri hawliau eraill yn cael ei ddiogelu gan Erthygl 10. Mae hyn yn wir oherwydd bod Erthygl 17 o'r Confensiwn yn gwahardd pobl rhag dibynnu ar hawliau'r Confensiwn i 'ymwneud ag unrhyw weithgaredd neu gyflawni unrhyw weithred a fwriadwyd i ddinistrio unrhyw hawliau a rhyddid' sy'n perthyn i eraill.

Yng nghyd-destun etholiadau, mae Erthygl 10 yn cyd-fynd ag Erthygl 3 o'r Protocol Cyntaf i'r Confensiwn, sy'n gwarantu'r hawl i etholiadau rhydd:

'[Mae Gwladwriaethau] yn ymrwmo i gynnal etholiadau rhydd ar gyfnodau rhesymol trwy bleidlais gudd, dan amodau fydd yn sicrhau i'r bobl gael rhyddid mynegiant i ddewis y corff deddfwriaethol.'

Yn achos *Bowman v UK* (1998)⁴ nododd y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd:

'Gyda'i gilydd mae etholiadau rhydd a rhyddid mynegiant, yn arbennig rhyddid i drafodaeth wleidyddol, yn ffurfio sylfeini unrhyw system ddemocrataidd... Mae'r ddau hawl yn gyd-gysylltiedig ac yn gweithredu i atgyfnerthu ei gilydd... Oherwydd hynny mae'n arbennig o bwysig yn y cyfnod cyn etholiad bod pob math o wybodaeth a barn yn cael cylchredeg yn rhydd.'⁵

Mae hyn yn wir oherwydd, trwy ddiogelu hawl pobl i gyfnewid gwybodaeth, trafod syniadau a mynegi barn, mae rhyddid mynegiant yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i benderfynu pa bolisiau i'w cefnogi a sut y maent yn dymuno defnyddio eu pleidlais.

Parhad...

⁴ 26 EHRR 1.

⁵ Ibid., para 42-3.

Gall rheolau etholiadol a grëwyd i gefnogi etholiadau rhydd a theg gyfyngu yn gyfreithlon ar hawliau rhyddid mynegiant yn ystod cyfnod etholiad. Er enghraifft, mae dyletswydd gyfreithiol ar ddarlledwyr radio a theledu yn y Deyrnas Unedig i fod yn ddiduedd yn wleidyddol⁶ ac mae cyfyngiadau cyfreithiol hefyd yn rheoli hysbysebu gwleidyddol ar y radio a'r teledu.⁷

⁶ Gweler adran 320 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

⁷ Gweler adrannau 321 a 333 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 a dyfarniad y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd yn *Animal Defenders International v UK* (2013 ECHR 362 (GC)) a chod darlledu Ofcom.

2 | Cyfarwyddyd i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr

Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae cyfreithiau cydraddoldeb yn berthnasol i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr a phryd y gall eu hawl i ryddid mynegiant gael ei gyfyngu. Mae hefyd yn cyffwrdd ar yr amddiffyniad cyfreithiol sydd gan ymgeiswyr os cânt eu targedu oherwydd nodwedd sy'n cael ei ddiogelu dan gyfraith cydraddoldeb.

Cyfraith cydraddoldeb, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a chynghorwyr

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i rai gweithgareddau gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig a'u gweithwyr a'u hasiantau, ond nid y cyfan ohonynt. Nid yw ymgyrchu mewn cyfnod etholiad yn cael ei gynnwys ynddi. Nid yw pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr yn ddarostyngedig i adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED)). Ond, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i'r ffordd y mae pleidiau gwleidyddol yn dewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau. Gall hefyd fod yn berthnasol i ymddygiad cynghorwyr ac Aelodau Seneddol os pennir eu bod yn arfer swyddogaeth gyhoeddus neu yn rhoi gwasanaeth i'r cyhoedd.

Er bod pleidiau gwleidyddol yn mwynhau rhyddid sylweddol yn y ffordd y maent yn arfer eu hawl i ryddid mynegiant, argymhellodd yr ymchwiliad Seneddol Trawsbleidiol i ymddygiad etholiadol y dylent gael rôl wirfoddol bwysig i'w chwarae wrth ymosod ar chwedlau eithafol.⁸

Mae ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn ddarostyngedig i'r gyfraith droseddol o ran cymell trais neu gasineb hiliol neu grefyddol, ac ymddygiad anghyfreithlon arall.

⁸ Yr [ymchwiliad i ymddygiad etholiadol](#), Seneddol Trawsbleidiol, para 156.

Aelodau o bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i rai gweithgareddau gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig a'u gweithwyr a'u hasiantau. Cymdeithas aelodaeth yw plaid wleidyddol gofrestrdig dan y Ddeddf.⁹ Cyfarwyddo, achosi neu gymell unigolyn arall i gyflawni rhai gweithredoedd anghyfreithlon penodol neu mae cynorthwyo i dorri Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn ffyrdd penodol hefyd yn anghyfreithlon.¹⁰

Mae Rhan 7 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid yn erbyn pobl sydd am ddod yn aelodau neu sy'n aelodau neu aelodau cysylltiol o gymdeithas aelodaeth.¹¹ Mae Rhan 7 yn cynnwys y nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd, ail-aseinio rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Nid yw aflonyddu yn gysylltiedig â chrefydd neu gred a thueddfryd rhywiol yn cael eu cynnwys.

Enghraifft — Cyfansoddiad plaid wleidyddol gofrestrdig yn cyfyngu aelodaeth i bobl sy'n byw yn Lloegr yn unig. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon oherwydd hil.

Mae Rhan 7 hefyd yn gwahardd gwahaniaethu yn y broses i ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol a chyffredinol.¹²

Enghraifft — Mae ymgeisydd ar y rhestr fer yn hysbysu Cadeirydd ei etholaeth ei fod yn bwriadu treulio gweddill ei oes fel menyw. O ganlyniad i hyn mae'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr fer. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon oherwydd ail-aseinio rhywedd.

Wrth gydnabod nad oes digon o gynrychiolaeth i fenywod, mae gan bleidiau gwleidyddol hawl i gael rhestrau byr o fenywod yn unig.¹³ Ar yr amod bod tystiolaeth o dangynrychiolaeth a bod y weithred yn gymesur gallant gymryd camau cadarnhaol yng nghyswllt ymgeiswyr sydd â nodweddion eraill sy'n cael eu diogelu. Gallant hefyd gadw lleoedd ar restrau byr i bobl sydd â nodwedd benodol sy'n cael ei

⁹ Fel y'u diffinnir yn adran 107 (2) Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae darpariaethau penodol yn y Ddeddf hon wedi eu cyfeirio at bleidiau gwleidyddol cofrestredig (adrannau 104 a 107(7)).

¹⁰ Gweler adrannau 111 ac 112 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

¹¹ Gweler adrannau 101 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 am ragor o fanylion.

¹² Ibid.

¹³ Adran 104(7) Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw (Ymgeiswyr Etholiadol) 2002.

diogelu, ar yr amod nad yw pleidiau gwleidyddol yn eithrio eraill nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno a bod tystiolaeth o dangynrychiolaeth.¹⁴

Gwasanaethau a chyflogaeth

Gwaherddir gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid hefyd pan fydd plaid wleidyddol yn darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd neu adran o'r cyhoedd.¹⁵ Mae cymorthfeydd Aelodau Seneddol a chynghorwyr yn debygol o gynnwys darparu gwasanaeth neu arfer swyddogaeth gyhoeddus.

Yn yr un modd ag unrhyw gyflogwr arall, rhaid i blaid wleidyddol beidio â gwahaniaethu yn erbyn nag erlid ei staff nac ymgeiswyr am swyddi.¹⁶

Am gyfarwyddyd manwl ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Chymdeithasau Aelodaeth cyfeiriwch at [God Ymarfer Statudol yr EHRC ar Wasanaethau, Swyddogaethau Cyhoeddus a Chymdeithasau](#).

¹⁴ A.104 Deddf Cydraddoldeb 2010.

¹⁵ Rhan 3 Deddf Cydraddoldeb 2010.

¹⁶ Rhan 5 Deddf Cydraddoldeb 2010.

3 | Cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau

Mae gan awdurdodau lleol a swyddogion canlyniadau rwymedigaethau cyfreithiol dan gyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol. Fel cyrff cyhoeddus rhaid iddynt weithredu yn gyson â'r hawl i ryddid mynegiant, arfer eu swyddogaethau cyhoeddus a chyflawni gwasanaethau yn unol â chyfreithiau cydraddoldeb a chyflawni cyfrifoldebau statudol eraill sy'n rheoli'r defnydd ar adeiladau a ariennir yn gyhoeddus gan ymgeiswyr etholiadol a chyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd. Mae swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau yn arfer swyddogaethau cyhoeddus ar gyfer dibenion cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ac mae ganddynt ddyletswyddau cyfreithiol penodol dan gyfreithiau etholiad.

Dyletswyddau cyfreithiau cydraddoldeb

Mae cyfreithiau cydraddoldeb yn atal awdurdodau lleol rhag gwneud unrhyw beth sy'n cyfateb i wahaniaethu, aflonyddu neu erlid anghyfreithlon ar unigolion wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus, rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd neu weithredu fel cyflogwr.¹⁷ Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus (PSED).¹⁸ Wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus rhaid iddynt roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- hybu cydraddoldeb cyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a'r rhai nad ydynt.

¹⁷ Gweler Rhannau 3 a 5 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

¹⁸ Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [gyfarwyddyd technegol](#) ar y PSED yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Diffinnir meithrin perthynas dda yn y cyd-destun hwn fel 'yr angen i... ymdrin â rhagfarn a... hybu dealltwriaeth'.

Dyletswyddau cyfreithiau cydraddoldeb ac etholiad yn ymwneud â phobl anabl

Mae dyletswyddau cyfreithiol penodol dan gyfraith cydraddoldeb ar unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau i wneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl anabl i ddefnyddio eu pleidlais. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth, ar sut i bleidleisio er enghraifft, ar gael ar ffurf sy'n hygyrch i bobl anabl fel y rhai sydd â nam ar y golwg a phobl ag anawsterau dysgu. Rhaid cymryd camau rhesymol i sicrhau bod adeiladau lle mae pleidleisio yn digwydd yn hygyrch i bobl anabl. Rhaid i brosesau a chyfleusterau i arfer hawliau pleidleisio trwy ddirprwy neu trwy'r post hefyd fod yn hygyrch i bobl anabl cyn belled â bod hynny'n rhesymol ac yn gyson â gofynion deddfwriaethol eraill. Yn ychwanegol, dan y PSED rhaid i'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i hybu cydraddoldeb cyfle i bobl anabl.

Mae cyfreithiau etholiadol¹⁹ hefyd yn nodi camau ar gyfer pleidleiswyr â nam ar eu golwg. Mae'n ofynnol i bob gorsaf bleidleisio arddangos copi print bras o'r papur pleidleisio, y mae gan bleidleiswyr hawl i fynd ag ef i'r bwth pleidleisio. Caiff cydymaith neu aelod o staff yr orsaf bleidleisio ddarllen y rhestr o enwau ymgeiswyr yn uchel. Gall pleidleiswyr â nam ar eu golwg gael cymorth i gyrraedd y bwth pleidleisio a'r blwch pleidleisio. Mae'n ofynnol i bob gorsaf bleidleisio ddarparu dyfais bleidleisio trwy gyffyrddiad i helpu pleidleiswyr gyda nam ar eu golwg i fwrw eu pleidlais. Ond, mae'r gofyn i bleidleisiau fod yn gyfrinachol yn golygu na all unrhyw un fynd i mewn i'r bwth pleidleisio gydag etholwr, gan gynnwys y rhai sydd am gynorthwyo pleidleiswyr sydd â nam ar eu golwg neu anawsterau dysgu.

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar y materion hyn ar gael gan [y Comisiwn Etholiadol](#).

¹⁹ Gweler adran 18B (4) (b) yr RPA a rheoliad 12 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (SI 2001/341).

Defnyddio adeiladau awdurdod lleol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

Dan adrannau 95 a 96 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA) mae gan bob ymgeisydd cyfreithlon mewn etholiadau lleol a chyffredinol hawl i ddefnyddio ystafelloedd mewn ysgolion²⁰ neu adeiladau a ariennir gan y cyhoedd i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn ystod cyfnod etholiad. Mae hyn yn orfodol, a hyd yn oed os bydd gan awdurdodau lleol bryderon am yr hyn y gall ymgeiswyr ei ddweud yn ystod cyfarfodydd o'r fath, ni all y pryderon hyn ganiatáu i awdurdodau lleol ddiystyru'r ddyletswydd statudol hon ar gyrff cyhoeddus i ddarparu ystafell am ddim. Oherwydd hyn ni all awdurdod lleol na chorff llywodraethol ysgol wrthod caniatâd i ymgeisydd cyfreithlon ddefnyddio ystafell ysgol neu adeilad arall a ariennir gan y cyhoedd, hyd yn oed os bydd yr ymgeisydd yn cynnal ei hymgyrch hi neu ei ymgyrch ef mewn modd sy'n niweidiol i gydraddoldeb cyfle neu gysylltiadau da.

Ond, mae ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir isod:

- rhaid i'r cyfarfod fod yn agored i bob aelod o'r cyhoedd
- rhaid i ddiben y cyfarfod fod yn hybu rhagolygon yr ymgeisydd o gael buddugoliaeth yn yr etholiad
- rhaid i'r ystafell fod yn 'addas', h.y. rhaid iddi fod yn ddigonol ar gyfer gofynion y cyfarfod
- rhaid i'r ystafell gael ei defnyddio ar amseroedd rhesymol, gan beidio ag amharu ar y gweithgareddau y mae'n cael ei defnyddio ar eu cyfer fel arfer, a rhaid i'r ymgeisydd roi rhybudd rhesymol o'i ddymuniad i'w defnyddio
- rhaid i ymgeiswyr dalu am gostau gwres, golau a glanhau'r ystafell, ei pharatoi ar gyfer y cyfarfod, a'i hadfer i'w chyflwr arferol ar ôl y cyfarfod
- rhaid i ymgeiswyr dalu am unrhyw ddifrod a wneir i'r adeilad.

Yr ymgeisydd sydd â hawl i ddefnyddio ystafelloedd, nid y blaid wleidyddol. Os nag oes ymgeisydd, neu os nad yw'r ymgeisyddiaeth yn gyfreithlon, nid yw'r cyngor na'r ysgol dan unrhyw ddyletswydd i ddarparu ystafell.

Y tu allan i gyfnod etholiad, nid yw'r ddyletswydd statudol i ddarparu ystafelloedd yn berthnasol, felly mae gan awdurdodau lleol fwy o ddisgresiwn o ran llogi ystafelloedd. Mae gan awdurdodau lleol gwahanol bolisiau gwahanol: mae rhai yn llogi adeiladau i bleidiau gwleidyddol ar gyfer cyfarfodydd, nid yw rhai eraill yn

²⁰ Mae 'ysgolion' yn golygu ysgolion cymunedol, sefydledig a gwirfoddol yng Nghymru a Lloegr, ac ysgolion nad ydynt yn annibynnol yn yr Alban.

gwneud hynny. Ond mae gwaharddiad cyffredinol i atal plaid neu ymgeisydd penodol rhag defnyddio adeiladau yn debygol o fod yn anghyfreithlon. Dylai awdurdodau lleol ystyried pob cais ar sail ei deilyngdod, a gweithredu yn unol â'u cyfrifoldebau dan gyfreithiau cydraddoldeb, cyfraith gyhoeddus, cyfraith droseddol a chyfraith hawliau dynol.

Trefn gyhoeddus

Mae gan unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd etholiadol gyfrifoldebau cyfreithiol dan adran 97 yr RPA i beidio ag ymddwyn mewn modd anhrefnus (na chymell eraill i wneud hynny) i atal y busnes y galwyd y cyfarfod ar ei gyfer. Mae ymddygiad o'r fath yn cyfateb i drosedd.

Os yw ystafell gyfarfod mewn ardal lle bu tensiynau cymunedol a bod gan y swyddog canlyniadau sail rhesymol dros gredu y gallai'r cyfarfod achosi anhrefn, dylai ymgynghori â'r Prif Gwnstabl neu uwch swyddog arall yn y llu heddlu lleol. Yn yr un modd, os bydd gan aelodau o'r cyhoedd neu grwpiau cymunedol bryder am eu diogelwch petai'r cyfarfod yn cael ei gynnal, dylent roi adroddiad am eu pryderon i'r heddlu.

Mae gan yr heddlu ddyletswyddau i ddiogelu diogelwch y cyhoedd, atal ymddygiad troseddol ac arfer eu pwerau yn gyson â'r hawl i ymgynnull yn heddychlon a phrotestio yn gyfreithlon²¹ heb danseilio'r broses wleidyddol ddemocrataidd. Cam eithaf yw atal cyfarfodydd gwleidyddol cyfreithlon mewn amgylchiadau anarferol, er enghraifft pan fydd tystiolaeth gref y bwriadwyd y cyfarfod i fygwth aelodau o'r gymuned neu i gymell trais. Yr ymateb cyffredin i fygythiadau pendant o anhrefn yw sicrhau bod trefnwyr cyfarfodydd a phrotestiadau yn cymryd pob cam rhesymol i atal anhrefn a, phan fydd adnoddau yn caniatáu hynny a bod angen hynny, plismona'r cyfarfod.

²¹ Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Erthygl 11.

Cywiro gwybodaeth anghywir, wallus a chamarweiniol yn ystod cyfnodau etholiadau

Ni all awdurdodau lleol gyhoeddi cyhoedduswydd (nac ariannu eraill i wneud hynny) sy'n ymddangos fel pe bai wedi ei ddylunio i effeithio ar gefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol.²²

Pan fydd awdurdodau lleol yn bryderus bod datganiadau cyhoeddus yn ystod cyfnod etholiad yn taenu gwybodaeth anghywir, mae ganddynt hawl i ystyried cyhoeddi datganiad i gywiro hynny, yn ddarostyngedig i amodau caeth.

Yn y gorffennol, defnyddiodd rhai ymgyrchoedd etholiadol wybodaeth anghywir, wallus neu gamarweiniol yn ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth i ddylanwadu ar bleidlais y cyhoedd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffigyrau wedi eu chwyddo ar gyfer gweithwyr tramor ac am y costau i wasanaethau cyhoeddus a lleol
- cyhuddiadau bob pobl o leiafrifoedd ethnig, fel Sipsiwn a Theithwyr, gweithwyr tramor neu aelodau Du o'r gymuned leol, yn cyflawni mwy o droseddau
- datganiadau bod twyll anabledd yn cyfrif am 70 y cant o'r holl dwyll budd-daliadau (a thrwy hynny gysylltu pobl anabl â gweithgareddau twyllodrus).

Yn ddarostyngedig i'r gyfraith ar gyhoedduswydd yn ystod cyfnodau etholiad, gall awdurdodau lleol gywiro gwybodaeth anghywir, gan gynnwys pan fydd yn ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Wrth ystyried eu hawl i wneud hynny, dylai awdurdodau yn Lloegr roi ystyriaeth i'r [Cod Ymarfer a Argymhellir ar Gyhoedduswydd Cynghorau Lleol](#)²³ 2011 statudol (y Cod Cyhoedduswydd).

Mae paragraff 16 yn rhoi hawl i awdurdodau lleol gyhoeddi deunydd sy'n cywiro gwybodaeth anghywir, wallus neu gamarweiniol, ar yr amod bod y cywiriad yn ffeithiol a gwrthrychol (diduedd yn wleidyddol) a theg (h.y. nad yw'n ceisio dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn pleidleisio):

²² Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 1986 – gwaharddiad ar gyhoedduswydd gwleidyddol.

²³ Cyhoeddwyd dan adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1986.

'Dylai unrhyw gyhoedduswydd yn disgrifio polisïau a nodau'r cyngor fod mor wrthrychol â phosibl, gan ganolbwyntio ar y ffeithiau neu'r esboniad neu'r ddau. Mae'n dderbyniol i gyhoedduswydd cyngor lleol gywiro deunydd gwallus sydd wedi cael ei gyhoeddi gan bartïon eraill, er gwaethaf y ffaith y gall y deunydd sy'n cael ei gywiro fod wedi cael ei gyhoeddi gyda'r bwriad o gael dylanwad ar farn y cyhoedd am bolisïau'r awdurdod. Dylai cyhoedduswydd o'r fath geisio esbonio'r ffeithiau mewn modd gwrthrychol.'

Nid yw paragraff 16 o'r Cod ar Gyhoedduswydd yn sôn a all gwybodaeth i gywiro gael ei chyhoeddi yn ystod cyfnod etholiad, ond yn 2013 eglurodd Datganiad Gweinidogol y gall awdurdodau lleol gywiro gwybodaeth anghywir yn ystod amserau o'r fath:

'Yn ystod cyfnod etholiad, er enghraifft, gall cynghorau lleol gyhoeddi deunydd ffeithiol. Dylai cyngor lleol fod yn ofalus wrth gyhoeddi cyhoedduswydd ac ni ddylai fod yn rhoi cyhoedduswydd sy'n ceisio dylanwadu ar bleidleiswyr...
[Os] oes gwybodaeth anghywir yn cylchredeg yn hybu aflonyddu, gall cyngor lleol weithredu i gywiro hynny ar adeg etholiad neu yn wir ar unrhyw amser arall...'²⁴

Wrth arfer ei hawl, rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â'r PSED a 'rhoi ystyriaethau cydraddoldeb, pan fyddant yn codi, yn ganolog i ffurfio polisi.'²⁵ Ond, mae cyd-destun yn bwysig iawn ac nid yw'r PSED yn gofyn am unrhyw ganlyniadau penodol. Wrth roi ystyriaeth ddyledus i nodau'r PSED, gall awdurdod lleol benderfynu y dylai weithredu i gywiro gwybodaeth anghywir, wallus neu gamarweiniol er mwyn annog trafodaeth agored ac ar sail gwybodaeth, ar yr amod bod hyn yn gyson â'i ddyletswyddau o ran bod yn wleidyddol ddiduedd ar faterion dadleuol yn ystod cyfnod etholiad. Fel arall, gall ddewis gadael hyn i eraill y mae'n penderfynu eu bod mewn sefyllfa well i weithredu yn ystod cyfnod etholiad. Mae llawer yn dibynnu yn ymarferol ar ddiben, arddull a chynnwys y cyhoedduswydd, ei amseriad a'r amgylchiadau ehangach.

²⁴ Y Farwnes Hanham, HL Deb 15 Gorffennaf 2013 col. 602 [Lords Chambers].

²⁵ Cyfarwyddyd Technegol PSED ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a *Bracking v Secretary of State for Work and Pensions* (2013 EWCA Civ 1345).

Yr Alban a Chymru

Rhaid i gynghorau'r Alban a Chymru ystyried Codau Ymarfer a Argymhellir ar Arferion Awdurdodau Lleol ar Gyhoedduswydd 1988 a diwygiedig 2013 yn eu tro. Mae'r ddau God yn gofyn i gyhoedduswydd sy'n rhoi sylwadau ar bolisiau awdurdod lleol neu lywodraethau cenedlaethol neu lywodraeth y Deyrnas Unedig fod yn wrthrychol, cytbwys, llawn gwybodaeth a chywir. Mae'r Codau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yn ofalus iawn yn ystod cyfnod etholiad i osgoi dylanwadu ar farn y cyhoedd na hyrwyddo delwedd gyhoeddus ymgeisydd penodol, neu grŵp o ymgeiswyr. Yn ychwanegol, rhaid peidio â rhoi cyhoedduswydd sy'n ymdrin â materion dadleuol neu sy'n rhoi adroddiad ar farn neu bolisiau mewn ffordd sy'n eu cysylltu ag aelodau unigol neu grwpiau o aelodau.

Mae cod diwygiedig 2013 i gynghorau Cymru yn datgan, yn ystod cyfnod etholiad, 'mae'n dderbyniol i'r awdurdod ymateb mewn amgylchiadau priodol i ddigwyddiadau ac ymholiadau gwasanaeth cyfreithlon ar yr amod bod yr atebion yn ffeithiol ac nad ydynt yn ffafriol i blaid wleidyddol.'

Nid oes darpariaeth gyfatebol yn y Cod i gynghorau'r Alban 1988.

Cyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth

Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio eu pwerau cyhoedduswydd i ddylanwadu ar agweddau'r cyhoedd at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn Lloegr, mae'r Cod ar Gyhoedduswydd yn cynnwys cyfarwyddyd penodol i awdurdodau lleol ar gydraddoldeb:

Paragraff 31 – Gall cyhoedduswydd gan awdurdodau lleol geisio dylanwadu (yn unol â'r gyfraith berthnasol mewn ffordd y maent yn ei hystyried yn gadarnhaol) ar agweddau pobl leol neu ymddygiad y cyhoedd yng nghyswllt materion iechyd, diogelwch, atal troseddau, cysylltiadau hiliol, cydraddoldeb, ac amrywiaeth a materion cymunedol.

Paragraff 32 – Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gall unrhyw gyhoedduswydd y maent yn ei gyhoeddi gyfrannu at hybu unrhyw ddyletswyddau sy'n berthnasol iddynt yng nghyswllt diddymu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Yng Nghymru a'r Alban, mae'r Codau yn caniatáu ymgyrchoedd cyhoedduswydd fel dull addas o ddylanwadu ar ymddygiad neu agweddau'r cyhoedd ar faterion fel cysylltiadau hiliol yn yr Alban a chyfle cyfartal yng Nghymru.

Nid yw'r pŵer i gyhoeddi cyhoeddusrwydd i ddylanwadu ar agweddau'r cyhoedd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn golygu bod dyletswydd gyfreithiol i wneud hynny.

4 | Cyfyngiadau ar ryddid mynegiant a nodir gan y gyfraith

Fel yr esboniwyd o'r blaen, mae rhai darpariaethau mewn cyfraith ddomestig yn cyfyngu ar ryddid mynegiant. Rydym yn amlinellu ystod o ddarpariaethau cyfraith droseddol perthnasol yn fwy manwl isod. Dylid nodi bod trothwyon uchel yn cael eu gosod i erlyn a cholffarnu unigolion am ymddygiad sy'n cyfyngu ar ryddid mynegiant. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar bob corff cyhoeddus yn y system cyfiawnder troseddol (heddlu, erlynyddion a'r llysoedd) i weithredu yn gyson gyda hawl unigolyn i ryddid mynegiant, ac weithiau mae'r hawl hwn wedi bod yn llwyddiannus fel amddiffyniad i gyhuddiad troseddol.

Cymell i gasáu

Rhoddir cryn ryddid i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr o ran y ffordd y maent yn ymgyrchu, ond gall eu hawl i ryddid mynegiant gael ei gyfyngu pan fydd eu hymddygiad etholiadol yn cymell casineb hiliol neu grefyddol neu gasineb oherwydd tueddfryd rhywiol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae araith neu ymddygiad sy'n tanio casineb hiliol neu grefyddol neu gasineb ar sail tueddfryd rhywiol yn drosedd dan [Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986](#).²⁶ Mae'r drosedd o annog casineb hiliol yn wahanol i'r troseddau o annog casineb ar sail tueddfryd rhywiol neu grefydd.²⁷

Mae cymell casineb rhywiol yn digwydd pan fydd unigolyn yn defnyddio geiriau neu ymddygiad neu yn dangos deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol neu yn sarhaus gyda'r bwriad o gymell casineb hiliol neu pan fydd yn debygol o gymell casineb hiliol. Gall hyn gynnwys pethau fel gwneud araith hiliol, dosbarthu taflenni hiliol neu arddangos poster hiliol.

²⁶ Mae troseddau cymell casineb hiliol yn cael eu cynnwys yn adrannau 18 i 23 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 sy'n berthnasol i Loegr, yr Alban a Chymru, a diffinnir casineb hiliol yn adran 17 o'r un Ddeddf.

²⁷ Mae cymell casineb ar sail grefyddol a rhywiol yn adrannau 29B i 29F o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a dim ond yng Nghymru a Lloegr y mae'r troseddau hyn yn berthnasol.

Er enghraifft, bu collfarnau yn y gorffennol am rannu sticeri hiliol i ddisgyblion ar fws;²⁸ dosbarthu taflenni oedd yn dweud bod rhaid i bobl Iddewig farw,²⁹ a dosbarthu taflenni i breswylwyr lleol oedd yn dweud bod Mwslimiaid wedi bod yn ymosod ar bobl Wyn yn yr ardal.³⁰

Mae cymell casineb crefyddol a chasineb oherwydd tueddfryd rhywiol yn digwydd pan fydd unigolyn yn defnyddio geiriau neu ymddygiad neu yn dangos deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol gyda'r bwriad o gymell casineb. Mae amddiffyniad statudol penodol sy'n diogelu rhyddid mynegiant; mae hynny'n darparu nad yw'n drosedd beirniadu, sarhau neu wawdio credoau crefyddol na beirniadu ymddygiad neu arferion rhywiol nag annog pwyll.

Er mwyn sicrhau nad yw rhoi barn am briodas cyplau o'r un rhyw yn drosedd, mae darpariaeth benodol sy'n nodi 'na fydd unrhyw drafodaeth neu feirniadaeth ar briodas sy'n cynnwys partion o'r un rhyw yn cael ei ystyried ynddo ei hun yn fygythiol neu wedi ei fwriadu i gymell casineb'.

Yn yr Alban, dim ond rhannau o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus sy'n gwahardd casineb hiliol sydd mewn grym. Mae gan yr Alban ei ddeddfwriaeth ei hun am aflonyddu hiliol a ffurfiau eraill o droseddau casineb o ran crefydd, tueddfryd rhywiol, trawsrywedd ac anabledd.³¹

Mae darpariaeth gyfreithiol benodol i'r Alban [Deddf Heddlu, Trefn Gyhoeddus a Chyfiawnder Troseddol \(Yr Alban\) 2006](#), yn amddiffyn yr hawl i fynegi barn yn erbyn priodas cyplau o'r un rhyw.

Os bydd aelodau o'r cyhoedd yn bryderus am weithgareddau plaid wleidyddol a'u bod yn dymuno dilyn camau troseddol, dim ond gyda chaniatâd yr Atwrnai Cyffredinol (yng Nghymru a Lloegr) y gellir dwyn erlyniad am droseddau cymell. Nid yw'r ddarpariaeth yn berthnasol yn yr Alban.

Rhaid i Wasanaeth Erlyn y Goron, y Twrnai Cyffredinol a barnwr yr achos weithredu gan gadw at Erthygl 10 y Confensiwn³² a gallant ystyried:

- cywirdeb, tôn, argyhoeddiad ymddangosiadol, grym perswâd a chynnwys y geiriau, ymddygiad neu ddeunydd dan sylw

²⁸ *R v Anthony White* (BBC News, 2003).

Collfarnwyd Mr White ar ôl iddo ddsbarthu sticeri i ddisgyblion ar fws oedd yn canolbwyntio ar ymosodiad honedig gan grŵp o Asiaid ar ddyn gwyn yn ystod yr helyntion hiliol yn Oldham. Fe'i carcharwyd am 6 mis.

²⁹ *R v Iftikhar Ali* (BBC News, 2003) Collfarnwyd Mr Ali am ddsbarthu taflenni gwrth-Semitig.

³⁰ *R v Wilson* (BBC News, 2002)

³¹ Gweler <http://www.scotland.gov.uk/Topics/archive/law-order/8978>

³² Deddf Hawliau Dynol 1998 adran 6 dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu yn unol â hawliau'r Confensiwn.

- y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol y gwnaed y cyfathrebiad ynddo, gan gynnwys yr effaith ar berthynas dda
- derbynwyr tebygol y cyfathrebiad, gan gynnwys y nifer, a pha mor agored a thueddol ydynt o gael eu cymell gan y cyfathrebiad
- mae'r dull o gyfathrebu hefyd yn debygol o fod yn ystyriaeth berthnasol.

Enghraifft — Mewn achos yn yr Alban, collfarnwyd dyn am gymell casineb hiliol ar ôl postio taflenni trwy ddrysau oedd yn honni bod Mwslimiaid wedi ymosod ar bobl Wyn yn yr ardal. Yn ei dedfryd, nododd y Sirydd:

'Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth bod y wybodaeth yn y daflen yn anghywir o ran sylwedd. Y dystiolaeth oedd bod ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud yn Pollockshields gan bob sector o'r gymuned i hybu cysylltiadau hiliol da. Dyma oedd tystiolaeth y bobl leol oedd wedi byw yn Pollockshields am flynyddoedd lawer; cynghorau cymuned lleol, Cyngor Cydraddoldeb Rhywiol Gorllewin yr Alban a Heddlu Strathclyde.

'O ystyried hynny, roedd cynnwys y daflen yn sarhaus ac yn ddilornus o'r gymuned yn Pollockshields lle'r oedd canran uchel o'r gymuned yn Fwslimiaid Duon o gefndir Pacistanaid. Roedd yn amlwg bod y dosbarthu dethol ar ddeunydd anghywir a bygythiol yn Pollockshields oedd yn cynnwys teimladau gwrth-Fwslimaidd wedi ei fwriadu i gymell drwgdeimlad a chasineb tuag at y gymuned Bacistanaid yno.'

Nid yw ymddygiad etholiadol sy'n cymell casineb yn erbyn pobl sydd â nodweddion eraill a ddiogelir, fel rhyw neu anabledd, yn drosedd; ond gallai ymddygiad o'r fath gyfateb i droseddau eraill, fel aflonyddu.

Enghraifft — Mae ymgeisydd yn dosbarthu taflenni yn gyson ac yn ysgrifennu blogiau am ymgeisydd arall sy'n fenyw. Mae'r taflenni a'r blogiau yn cyfeirio yn barhaus at bartneriaid rhywiol yr ymgeisydd benywaidd ac yn cynnwys ffotograffau ohoni mewn dillad sy'n dangos gormod.

Os yw'r taflenni a'r blogiau yn achosi gofid neu ofn i'r ymgeisydd benywaidd yna fe allai gwyno wrth yr heddlu am aflonyddu dan y Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997.

Aflonyddu

Mae Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn gwneud aflonyddu bwriadol ([adran 4A](#)) ac achosi aflonyddu, ofn neu ofid ([adran 5](#))³³ yn droseddau.

Gall aflonyddu bwriadol ddigwydd pan fydd unigolyn yn defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad anhrefnus gyda'r bwriad a'r effaith o aflonyddu, dychryn neu beri gofid i unigolyn.

Mae aflonyddu bwriadol hefyd yn cynnwys arddangos unrhyw ysgrifen, arwydd neu gyflwyniad gweledol arall sy'n fygythiol, ymosodol neu sarhaus, gyda'r bwriad a'r effaith o aflonyddu, dychryn neu beri gofid i unigolyn.

Bydd achosi aflonyddu, ofn neu ofid yn digwydd pan fydd unigolyn yn defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus, neu ymddygiad anhrefnus o fewn golwg neu o fewn clyw i unigolyn sy'n debygol o gael ei aflonyddu, ei ddychryn neu o ddiodef gofid.

Mae [Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997](#) yn gwneud aflonyddu yn drosedd ac yn fater sifil. Bydd aflonyddu yn digwydd pan fydd cwrs o ymddygiad (h.y. mwy nag un digwyddiad), sy'n cyfateb i aflonyddu, ac y mae'r diffynnydd yn gwybod, neu fe ddylai wybod, ei fod yn cyfateb i aflonyddu ar unigolyn arall. Rhaid i'r ymddygiad aflonyddgar achosi gofid neu ofn.

Yn yr Alban, y prawf ar gyfer aflonyddu (ac eithrio mewn achosion cam-drin domestig) yw cwrs o ymddygiad sy'n cyfateb i aflonyddu ar rywun arall a naill ai a) ei fod wedi ei fwriadu i gyfateb i aflonyddu ar yr unigolyn hwnnw neu b) yn digwydd mewn amgylchiadau lle byddai'n ymddangos i unigolyn rhesymol y byddai'n cyfateb i aflonyddu. Dim ond os bydd gorchymyn peidio ag aflonyddu yn cael ei dorri y mae trosedd yn cael ei chyflawni.

Aflonyddu a waethygir ar sail hil neu grefydd

Mae Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn creu trosedd o aflonyddu a waethygir ar sail hil neu grefydd yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban dim ond aflonyddu a waethygir gan hil sy'n drosedd.

Bydd aflonyddu a waethygir ar sail hil neu grefydd yn digwydd pan fydd unigolyn yn cyflawni trosedd o aflonyddu dan Ddeddf Diogelu Rhag Aflonyddu 1997 neu Ddeddf

³³ Sylwer bod yr ochr 'sarhaus' i'r drosedd benodol hon wedi ei dynnu gan adran 57 o Ddeddf Troseddau a Llysoedd 2013 (ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2014) yn rhannol oherwydd pryderon am y modd y mae wedi ei ddefnyddio i gyfyngu ar ryddid mynegiant cyfreithlon.

Trefn Gyhoeddus 1986, ac, ar adeg cyflawni'r drosedd, bod y troseddwr yn dangos casineb tuag at y dioddefwr ar sail aelodaeth wirioneddol neu dybiedig y dioddefwr o grŵp hiliol neu grefyddol (neu gysylltiad â nhw); neu os bydd y drosedd wedi ei chymell yn gyfan neu'n rhannol gan gasineb tuag at aelodau o grŵp hiliol neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.

Yn yr Alban, mae aflonyddu a waethygir ar sail hil yn digwydd pan fydd unigolyn yn dilyn cwrs o ymddygiad a waethygir ar sail hil sy'n cyfateb i aflonyddu, neu yn gweithredu mewn modd a waethygir gan hil, ac sy'n achosi, neu a fwriadwyd i achosi, ofn neu ofid i unigolyn.

Troseddau eraill a waethygir ar sail hil neu grefydd

Mae [Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998](#) yn creu troseddau ar wahân ar gyfer troseddau sy'n cael eu gwaethygu gan hil y dioddefwr neu hil a chrefydd yng Nghymru a Lloegr, fel trais neu ddifrod troseddol. (Mae'r rhain yn ychwanegol at droseddau aflonyddu a waethygir ar sail hil neu grefydd.)

Mae trosedd a waethygir yn digwydd, os, ar adeg cyflawni trosedd neu yn union cyn hynny neu ar ôl hynny, bydd y troseddwr yn dangos casineb tuag at hil neu grefydd y dioddefwr neu ei hil neu grefydd tybiedig; neu pan fydd y drosedd wedi ei hysgogi gan gasineb tuag at aelodau o grŵp hiliol neu grefyddol.

Gall troseddau a waethygir ar sail hil neu grefydd gael eu cyflawni, os, er enghraifft, bydd difrod i fannau addoli, cartrefi neu adeiladau cymunedol neu fod graffiti ymosodol yn cael ei roi arnynt, bod ysbwriel yn cael ei adael yn fwriadol (difrod troseddol a waethygir ar sail hil neu grefydd) neu fod unigolion yn dioddef ymosodiadau hiliol (ymosodiad a waethygir ar sail hil neu grefydd). Bydd troseddau a waethygir ar sail hil neu grefydd yn denu cosb ychwanegol at y ddedfryd am y drosedd.

Troseddau a waethygir ar sail anabledd, hil, crefydd neu gred neu dueddfryd rhywiol neu statws trawsryweddol

Mae gan y llysoedd troseddol, yng Nghymru a Lloegr, y grym i gynyddu dedfrydau am droseddau a gyflawnwyd gan droseddwr sy'n dangos casineb yn ystod neu ar ôl y drosedd tuag at hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol, statws trawsryweddol neu anabledd y dioddefwr neu ei rai tybiedig.

Yn yr Alban, mae'n ofynnol i'r llysoedd ystyried ffactorau gwaethybol wrth ddedfrydu am droseddau pan fydd y troseddwr, yn union cyn y drosedd neu ar ei hôl, yn dangos neu yn cael ei gymell gan falais neu ddrwgdeimlad tuag at aelodaeth y dioddefwr o grŵp crefyddol neu gymdeithasol neu ddiwylliannol gyda chysylltiad crefyddol tybiedig.³⁴

Yn yr Alban gall gwaethygiadau statudol hefyd gael eu gweithredu ar gyfer unrhyw drosedd a ysgogir gan ragfarn tuag at bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu anabl. Eto, nid yw'r gofyn am gynnydd awtomatig yn y ddedfryd, ond i'r llys ystyried ffactorau gwaethybol wrth lunio'r ddedfryd.³⁵

Gwneud datganiadau ffug am unigolyn

Mae Adran 106 o'r RPA yn ei gwneud yn drosedd gwneud neu gyhoeddi datganiad ffug o ffaith am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd etholiadol er mwyn sicrhau bod ymgeisydd yn cael ei ethol mewn etholiad. Ni waherddir datganiad ffug am faterion gwleidyddol.

Enghraifft

Mewn ardal lle mae cais cynllunio am uned iechyd meddwl ddiogel wedi ei wrthwynebu yn ffyrnig gan breswylwyr, mae taflen ymgyrchu yn nodi yn anghywir bod gan ymgeisydd arall hanes o salwch meddwl. Gall hyn fod yn drosedd dan yr RPA. Yn groes i hynny, mae taflen sy'n nodi'n anghywir bod yr ymgeisydd arall wedi pleidleisio yn y Senedd dros gynnydd yn y cyllid i wasanaethau iechyd meddwl yn debygol o fod yn ddatganiad ffug ar fater gwleidyddol.

Yn 2007 collfarnwyd cynghorydd dan adran 106 o'r RPA am gyhuddo ymgeisydd arall yn anghywir o fod yn 'bedoffilydd' mewn etholiad awdurdod lleol.

Yn 2010 cafwyd bod Phil Woolas AS, wedi torri adran 106 o'r RPA gan lys etholiadol yn dilyn cwyn gan ymgeisydd aflwyddiannus ei fod wedi ei ddarlunio fel rhywun oedd yn chwilio am bleidleisiau gan Fwslimiaid milwriaethus. Bu'n ofynnol i Mr Woolas adael ei sedd, gan arwain at isetholiad, ac fe'i gwaharddwyd rhag sefyll etholiad am dair blynedd.

³⁴ Deddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2003.

³⁵ Deddf Troseddau (Gwaethygiad gan Ragfarn) (Yr Alban) 2009.

Troseddau yn ymwneud â chyfathrebu ar-lein

Mae Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i anfon cyfathrebiad electronig i unigolyn arall sy'n cyfleu:

- neges anweddus neu dramgwyddus iawn, bygythiad neu wybodaeth sy'n anghywir ac y mae'r anfonwr yn gwybod neu yn credu ei bod yn anghywir, neu
- sydd, yn gyfan neu yn rhannol, o natur anweddus neu dramgwyddus iawn gyda'r bwriad o achosi gofid neu bryder i'r derbynnydd (neu unrhyw unigolyn arall).

Mae Adran 127 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn drosedd yn Lloegr, Cymru a'r Alban i ddefnyddio rhwydwaith cyfathrebu electronig cyhoeddus yn amhriodol. Bydd hyn yn digwydd pan fydd unigolyn:

- yn anfon neges electronig sy'n dramgwyddus iawn, yn anweddus, anllad neu o natur fygythiol
- yn anfon neges y gwyddys ei fod yn ffug i'r diben o achosi gofid, anghyfleustra neu bryder diangen i un arall
- yn defnyddio rhwydwaith gyfathrebu electronig gyhoeddus i'r diben o achosi gofid, anghyfleustra neu bryder diangen i un arall yn gyson.

Mae'n drosedd hefyd dan y Ddeddf hon i wneud galwadau ffôn anweddus, tramgwyddus neu sy'n peri gofid.

Yn yr Alban, mae'r drosedd yn cael ei chyflawni mewn dwy sefyllfa:

1. pan fydd unigolyn yn fwriadol neu yn ddifeddwl yn cyfathrebu bygythiad gwirioneddol neu a awgrymir i gyflawni gweithred sy'n ddifrifol o dreisgar sy'n debygol o achosi ofn a dychryn; neu;
2. anfon cyfathrebiad bygythiol gyda'r bwriad o gymell casineb crefyddol.

Caniateir trafodaeth neu feirniadaeth ar grefydd neu gred neu arferion crefyddol a mynegiant o elyniaeth, peidio hoffi, gwawd, sarhad neu ddiffrïo tuag at grefydd.

Hefyd yn yr Alban, mae cyfathrebu bygythiadau o drais difrifol a bygythiadau a fwriadwyd i gymell casineb crefyddol, boed wedi eu hanfon trwy'r post neu wedi eu rhoi ar y rhyngwyd, yn drosedd.

Mae erlynyddion yn gosod trothwy uchel i erlyn y troseddau hyn, gan bwysleisio mai'r prawf cyfreithiol yw os yw'r neges yn dramgwyddus iawn (nid tramgwyddus), yr angen i weithredu yn gyson â chyfraith hawliau dynol a'r prawf budd y cyhoedd.

Mae cyfarwyddyd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)³⁶ yn nodi: 'Mae gan y CPS y dasg o dafoli'r hawl sylfaenol i gael rhyddid mynegiant â'r angen i erlyn drwg weithredu difrifol o achos i achos.' Wrth ystyried erlyn neu beidio yn y cyd-destun hwn mae'n edrych ar nifer o ffactorau perthnasol sy'n cynnwys:

- a oes un cyfathrebiad yn unig neu ymgyrch barhaus o aflonyddu ar unigolyn
- a yw'r sylwadau tramgwyddus iawn neu fygythiol yn cael eu cynnal neu eu dileu yn gyflym
- a oedd yr unigolyn yn bwriadu i'r neges fynd tu hwnt i ffrindiau a theulu i'r cyhoedd yn gyffredinol
- y bwriad tu ôl i'r neges (e.e. ymdrech annoeth i fod yn ddoniol yn hytrach na chymell eraill)
- yr effaith a gafodd ar y derbynnnydd
- a yw'r unigolyn wedi mynegi unrhyw edifeirwch am ei weithredoedd.

Yn ymarferol arweiniodd hyn at erlyniadau llwyddiannus ar unigolyn a ddefnyddiodd Twitter i fygwth treisio Stella Creasy AS ac unigolyn a ddefnyddiodd yr un dull o gyfathrebu i wneud sylwadau gwrth-Semitig yn erbyn Luciana Berger AS. Derbyniodd y ddau ddrwgweithredwr ddedfryd o garchar.

Ar y llaw arall, penderfynodd y CPS beidio ag erlyn Daniel Thomas a wnaeth negeseuon trydar am y plymiwr Olympaidd Tom Daley oherwydd nad oedd wedi ei fwriadu i gylchredeg tu hwnt i ddilynwyr Mr Thomas (ond iddo gyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol trwy eraill), fe'i tynnwyd yn syth, mynegodd Mr Thomas edifeirwch, nid Mr Daley oedd y derbynnnydd a fwriadwyd, ac ar ôl trafod gyda'r CPS, nid oedd yn teimlo bod angen erlyn y mater hwn.

Dylid sylwi bod hwn yn faes cymhleth iawn sydd yn datblygu'n gyflym o ran y gyfraith.

Darllen pellach

Cymell ac aflonyddu

- [CPS](#) (Cymru a Lloegr)
- [The Crown Office and Procurator Fiscal](#) (Yr Alban)
- [True Vision](#) – cysylltiadau i roi adroddiad am droseddau casineb

³⁶ Cyfarwyddyd y DPP ar Erlyniadau Cyfryngau Cymdeithasol Mehefin 2013.

Troseddau etholiadol

Cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol [gyfarwyddyd ar ymgyrchu](#) yn etholiad cyffredinol Seneddol y Deyrnas Unedig ym Mai 2015. Mae'n cynnwys cyngor ar y pethau i'w gwneud a'u hosgoi wrth ymgyrchu at etholiad a gwybodaeth am droseddau etholiadol.

5 | Sut i gwyno a rôl rheoleiddwyr

Plaid wleidyddol

Gellir cwyno wrth Gadeirydd (neu gyfatebol) y plaid wleidyddol os bydd ymddygiad etholiadol:

- yn ffeithiol anghywir
- yn niweidiol i gysylltiadau da
- yn gwneud datganiad anghywir am gymeriad ac ymddygiad ymgeisydd
- yn cymell casineb at bobl sydd â nodwedd a ddiogelir
- yn torri cod ymddygiad y Blaid ei hun.

Awdurdod lleol

Gall unrhyw gwynion am ymddygiad aelodau etholedig presennol gael eu cyfeirio at swyddog monitro'r awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am y gŵyn os oes honiad bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad lleol.

Heddlu

Dylid rhoi adroddiad am ymddygiad etholiadol sy'n debygol o gymell casineb hiliol neu grefyddol neu gasineb oherwydd tueddfryd rhywiol i'r Prif Gwnstabl neu uwch swyddog arall yn yr heddlu. Mae'r prawf ar gyfer troseddau cymell wedi ei osod yn uchel, felly cyn cwyno mae'n syniad da ymgynghori â grwpiau cymunedol lleol a chynghorwyr i weld a oes consensws a yw'r ymddygiad yn debygol o gymell casineb neu arwain at droseddau eraill. Hyd yn oed os nad yw deunydd yn cyrraedd y trothwy troseddol ar gyfer troseddau cymell, gall yr heddlu benderfynu trafod y gŵyn gyda'r tramgwyddwr.

Dylid rhoi adroddiad am bob trosedd arall i'r heddlu, fel aflonyddu, ymosod, difrod troseddol, troseddau a waethygydd ar sail hil neu grefydd. Yn ystod cyfnod etholiad, gall yr heddlu arfer diwydrwydd ychwanegol wrth fonitro troseddau casineb ac felly mae'n arbennig o bwysig rhoi adroddiad iddynt am droseddau.

Yn achlysurol, gall diogelwch personol ymgeiswyr unigol a'u tîm fod mewn perygl. Os oes gan ymgeiswyr unrhyw bryderon am eu diogelwch yna dylent eu trafod gyda'r heddlu cyn gynted â phosibl.

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Mae'r [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) yn gorff statudol a sefydlwyd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae'n gorff annibynnol sy'n gyfrifol am hybu a gorfodi'r cyfreithiau sy'n amddiffyn tegwch, urddas a pharch. Mae'n cyfrannu at wneud a chadw cymdeithas Prydain yn un deg lle gall pawb, beth bynnag fo'i gefndir, gael cyfle cyfartal i gyflawni ei botensial. Mae'r Comisiwn yn gorfodi deddfwriaeth cydraddoldeb ar oedran, anabledd, ail-aseinio rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Mae'n annog cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 ac mae wedi ei achredu gan y Cenhedloedd Unedig fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol 'Statws A'.

Yn y lle cyntaf, dylai cwynion gael eu hanfon at y [Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb](#), sy'n sefydliad ar wahân i'r Comisiwn. Ni all y Comisiwn ymdrin â chwynion am deddfwriaeth arall, hyd yn oed os ydynt yn ymwneud â chydraddoldeb, fel y cyfreithiau yn ymwneud â chymell.

Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r [Comisiwn Etholiadol](#) yn rheoleiddio cyllid pleidiau gwleidyddol a'u gwariant. Mae hefyd yn rhoi adroddiadau am safonau perfformiad swyddogion cofrestru etholiadol a swyddogion canlyniadau i sicrhau bod etholiadau yn deg ac agored. Gall safonau perfformiad gyffwrdd â materion fel gwybodaeth hygyrch ar sut i bleidleisio, hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a pha mor effeithiol y gall ymgeiswyr gymryd rhan mewn etholiadau.

Yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu

Nid oes gan [yr Asiantaeth Safonau Hysbysebu](#) rôl mewn etholiadau. Ni all edrych ar hysbysebion gwleidyddol ac mae etholiadau yn cael eu heithrio o'r Cod Hysbysebu.

Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg

Mae [Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg](#) (IPSO) yn ymdrin â chwynion am beidio â chadw at ei god ymarfer i olygyddion ar aflonyddu. Dim ond dros y cyflenwyr cyfryngol hynny sy'n aelodau y mae ganddo awdurdod.

Ofcom

Mae [Ofcom](#) yn rheoleiddio'r cyfryngau a ddarlledir. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau am reoleiddio cyfryngau a ddarlledir o ran bod yn wleidyddol ddi-dduedd ac achosi niwed a thramgwydd. Mae Ofcom hefyd yn goruchwylio darlledwyr fel na fyddant yn cymell troseddau nac yn ysgogi anhrefn. Mae Ofcom yn ymdrin â chwynion ac mae ganddo'r grym i lansio ymchwiliadau pan fydd yn credu bod darlledwr wedi torri'r rheolau. Mae Ofcom yn ddarostyngedig i Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac felly ni all weithredu yn groes i'r hawl i ryddid mynegiant.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau hawliau dynol ar gael o wefan y Comisiwn:
www.equalityhumanrights.com

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd am gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 hyd 20:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)
10:00 hyd 14:00 (dydd Sadwrn)

Post FREEPOST Equality Advisory Support Service FPN4431

Rhaid cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at:
correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau eraill

Mae'r adroddiad hwn ar gael fel ffeil PDF ac fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r Comisiwn mewn fformat arall, cysylltwch â:
correspondence@equalityhumanrights.com

ISBN: 978-1-84206-604-1

© 2015 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2015